



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Siaradwyr y gynhadledd blynyddoedd cynnar a gofal plant a'r sesiwn gyda'r hwyr

Bywgraffiadau'r siaradwyr yn y gynhadledd a'r sesiwn gyda'r nos.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 September 2023

Diweddariad olaf: 7 September 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/blynyddoedd-cynnar-a-gofal-plant/cynhadledd-blynyddoedd-cynnar-gofal-plant/siaradwyr-cynhadledd->

[blynyddoedd-cynnar-gofal-plant](#) am y fersiwn diweddaraf.

Bywgraffiadau'r siaradwyr yn y gynhadledd a'r sesiwn gyda'r hwyr.

Neil Eastwood

Mae Neil Eastwood yn siaradwr rhyngwladol ar recriwtio a chadw gweithwyr gofal ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Ef yw awdur y llyfr 'Saving Social Care - How to find more of the best frontline care employees and keep the ones you have'.

Mae hefyd yn sefydlydd a Phrif Swyddog Gweithredol Care Friends, ap atgyfeirio gweithwyr a weithredir mewn partneriaeth â Sgiliau ar gyfer Gofal a enillodd Wobr y Brenin 2023 am arloesi. Cyn hynny, roedd Neil yn gyfarwyddwr ar gyfer darparwr gofal cartref ledled y DU gyda 10,000 o staff.

Chantelle Haughton, DARPL

Chantelle yw Cyfarwyddwr a Sylfaenydd DARPL (Menter Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Amrywiaeth a Dysgu Proffesiynol Gwrth-Hiliol Llywodraeth Cymru i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru drwy Gymuned Ymarfer sy'n cynnwys sefydliadau mawr a sefydliadau llawr gwlad sy'n gweithio mewn partneriaeth â phrofiadau proffesiynol / byw), Cymrawd Addysgu Cenedlaethol, Prif Ddarlithydd Addysg Blynyddoedd Cynnar, Prifysgol Met Caerdydd ac Uwch Gymrawd (SFHEA).

Sefydlodd Chantelle Ganolfan Dysgu Awyr Agored Prifysgol Met Caerdydd. Mae Chantelle yn cyd-gadeirio Cynllun Gweithredu Cymru Gwrthhiliol Llywodraeth Cymru Y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae Grŵp Llywodraethu Ysgolion.

Roedd hi'n Aelod o Briff y Gweinidogion, ac yn Gadeirydd ar gyfer Gweithgor Gweinidogol Hanesion Du Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a Cynefin yn y

Cwricwlwm i Gymru, Pwyllgor Rheoli Hanes Pobl Dduon Cymru, Cyn-Is-gadeirydd Rhwydwaith BAMEed Wales, Dirprwy Gadeirydd Grŵp tasg Siarter Cydraddoldeb Hil ym Met Caerdydd a chyn Is-gadeirydd Rhwydwaith Blynyddoedd Cynnar Cymru.

Roedd Chantelle yn Brif Ymchwilydd ar yr Adroddiad Ymchwil a ysgrifennwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru (2021) yn archwilio materion recriwtio a chadw athrawon / arweinwyr mewn Addysg, a arweiniodd y canfyddiadau yn uniongyrchol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllunio Gweithredu a Chymhelliant AGA gorfodol ar gyfer Athrawon dan Hyfforddiant Addysgol Academaidd sydd â Threftadaeth Fwyafrifol Fyd-eang.

Yn 2023 roedd Chantelle yn Brif Ymchwilydd ar gyfer darn rhanbarthol diweddar o ymchwil yn archwilio hiliaeth mewn ysgolion a materion sy'n ymwneud â pheidio ag adrodd.

Martin King-Sheard, Chwarae Cymru

Martin yw Swyddog Datblygu'r Gweithlu ar gyfer Chwarae Cymru. Mae ganddo gyfrifoldeb arweiniol dros bolisi a datblygiad strategol sy'n gysylltiedig â dysgu a datblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae a gwaith chwarae yng Nghymru. Mae wedi bod yn gweithio gyda phlant ers dros 25 mlynedd, fel gweithiwr chwarae ac ymarferydd syrcas.

Mae Martin wedi'i leoli yng Ngogledd Cymru ac mae wedi bod gyda Chwarae Cymru ers 2006.

Liz Parker, Swyddog Ymgysylltu a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Liz yn un o'r swyddogion ymgysylltu sy'n gyfrifol am y gwaith Cymraeg allanol mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gwneud gyda'r sector gofal a blynyddoedd cynnar.

Ceri Gethin, Gofal Cymdeithaol Cymru

Ceri yw ein Swyddog Ymgysylltu a Datblygu Gofalwn Cymru. Mae'n arwain ar y gwaith ymgysylltu sydd ei angen i hyrwyddo ac ymgorffori gwaith Gofalwn Cymru, gan gynnwys ei phorth swyddi, Cyflwyniad i ofal cymdeithasol a rhaglenni Cyflwyniad i ofal plant. Mae hyn yn cynnwys cynnal a datblygu perthnasoedd â phartneriaid a chyflogwyr ledled Cymru.

Natasha Young, Darlithydd Blynyddoedd Cynnar, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant

Mae Natasha yn ddarlithydd blynyddoedd cynnar ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Ar ôl blynyddoedd lawer yn gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, mae wedi datblygu diddordeb brwd ym mhob mater blynyddoedd cynnar gyda ffocws penodol ar ddatblygiad, chwarae a diogelu plant.

Kay Evans, Llywodraeth Cymru

Gwybodaeth i ddod.

Tudalennau cysylltiedig

- [Prif dudalen yr gŵyl dysgu gydol oes](#)
- [Gwybodaeth am y gynhadledd blynyddoedd cynnar a gofal plant](#)
- [Gwybodaeth am y sesiwn gyda'r hwyr](#)